Urdd 100 1922 - 2022

21 Mawrth 2022

Annwyl Deulu,

Fe fyddwch fel ni rwy'n siŵr wedi eich llorio gan yr adroddiadau erchyll sydd yn ein cyrraedd yn ddyddiol o Wcráin. O ganlyniad i'r argyfwng ffoaduriaid, mae cais wedi ein cyrraedd gan Lywodraeth Cymru i gynnig lloches tymor byr i deuluoedd sydd wedi ffoi o'r wlad.

Er mwyn medru cyflawni hyn nid oes dewis gennym ond gohirio eich ymweliad â Gwersyll yr Urdd Llangrannog. Mae'r Urdd fel mudiad yn llwyr ymwybodol o'r siom a'r aberth mae hyn yn ei olygu i blant a phobol ifanc Cymru, yn enwedig yn dilyn y ddwy flynedd ddiwethaf. Dydy hyn ddim wedi bod yn benderfyniad hawdd i ni, ond rydym yn gobeithio eich bod yn deall ein rheswm dros helpu mewn cyfnod mor erchyll i bobl a phlant Wcráin.

Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob plentyn ac ysgol sydd wedi rhoi eu lle yn y Gwersyll er mwyn cefnogi ffoaduriaid Wcráin yn eu hamser o angen mawr. Mae eich cefnogaeth yn hynod bwysig i'r Urdd, ac rydym yn awyddus i ail-drefnu'r ymweliad gyda Gwersyll Llangrannog. Mi fyddwn yn trafod hyn ymhellach gyda'ch ysgol dros y dyddiau nesaf, ac yn sicrhau fod eich blaendal yn cael ei ad-dalu yn llawn.

Oherwydd diogelwch ein cyfeillion o Wcráin, gofynnwn yn garedig i chi beidio â rhannu'r wybodaeth yma gydag eraill nac ar unrhyw gyfrwng cymdeithasol.

Yr eiddoch yn ffyddlon,

Siân Lewis

Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru

Urdd 100 1922 - 2022

21 March 2022

Dear Family,

Like us, I’m sure you have been struck by the horrific reports reaching us daily from Ukraine. In response to the refugee crisis, the Urdd has received a request by the Welsh Government to offer short-term accommodation to families who have fled the country.

To achieve this, we have no choice but to postpone your planned visit to the Urdd’s Residential Centre in Llangrannog. The Urdd as an organisation is fully aware of the disappointment and sacrifice this means to the children and young people of Wales, especially following the last two years. This has not been an easy decision; however, we hope you understand our reason for helping during what is such a horrendous time for the people of Ukraine.

I would personally like to thank all each and every child and school for postponing their visit to the Gwersyll in order to support Ukrainian refugees in their time of great need. Your support is very important to us, and we are eager to re-arrange your stay at Llangrannog. We will be discussing this further with your school over the upcoming days and ensuring your deposit is repaid in full.

Due to the safety of our friends from Ukraine, we kindly ask you not to share this information with others or on social media.

Yours faithfully,

Siân

Siân Lewis

Chief Executive, Urdd Gobaith Cymru